# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## (308)

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3523

## Datganiad y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Cyhoeddodd y Llywydd yn unol â Rheol Sefydlog 26.75 fod y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) a'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 5 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Cwestiwn Brys (10 munud)

Dechreuodd yr eitem am 14.16

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am honiadau gan bennaeth y Coleg Brehinol Meddygaeth Frys yng Nghymru nad oedd gan yr un adran damweiniau ac achosion brys yng Nghymru ddigon o feddygon ymgynghorol i

fodloni isafswm lefelau staffio y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys y llynedd?
EAQ(4)0676(HSS)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.30

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Tata Steel

Dechreuodd yr eitem am 14.47

## 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys

Dechreuodd yr eitem am 15.59

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Prentisiaethau

Dechreuodd yr eitem am 16.35

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda Diwygio Gwasanaethau Datganoledig

Dechreuodd yr eitem am 17.19

## 7 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Argymhellion a dyfodol y Cynllun Bathodynnau Glas yng Nghymru – Tynnwyd yn ôl – i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig

Tynnwyd yr eitem yn ôl

## 8 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016

Dechreuodd yr eitem am 17.56

**NDM5918 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014 - 2015

Dechreuodd yr eitem am 17.59

**NDM5919 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-2015.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw toriadau i'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi yn cael effaith andwyol ar gynnydd o ran creu cymunedau mwy cydlynol a chynhwysol yng Nghymru.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder y toriad arfaethedig o 68 y cant mewn cyllid craidd i Anabledd Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod cymhelliad hiliol i ychydig dros dri chwarter o'r troseddau casineb a adroddwyd i heddluoedd Cymru yn 2012-2013.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith mai dim ond 13 y cant o blant sy'n Sipsiwn/Sipsiwn Roma a 17 y cant o blant sy'n derbyn gofal a gyflawnodd TGAU graddau A* i C, mewn mathemateg a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf yn 2014.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed o ran gwella gwasanaethau dysfforia rhywedd yng Nghymru, ac yn galw am astudiaeth ddichonolrwydd annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth rhywedd yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud at recriwtio dienw yn y sector cyhoeddus pan fo hynny'n bosibl fel bod pobl yn cael eu barnu ar eu gallu gwirioneddol i wneud swydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5919 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-2015.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw toriadau i'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi yn cael effaith andwyol ar gynnydd o ran creu cymunedau mwy cydlynol a chynhwysol yng Nghymru.

3. Yn nodi bod cymhelliad hiliol i ychydig dros dri chwarter o'r troseddau casineb a adroddwyd i heddluoedd Cymru yn 2012-2013.

4. Yn gresynu at y ffaith mai dim ond 13 y cant o blant sy'n Sipsiwn/Sipsiwn Roma a 17 y cant o blant sy'n derbyn gofal a gyflawnodd TGAU graddau A* i C, mewn mathemateg a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf yn 2014.

5. Yn galw ar y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed o ran gwella gwasanaethau dysfforia rhywedd yng Nghymru, ac yn galw am astudiaeth dichonolrwydd annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth rhywedd yng Nghymru.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud at recriwtio dienw yn y sector cyhoeddus pan fo hynny'n bosibl fel bod pobl yn cael eu barnu ar eu gallu gwirioneddol i wneud swydd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.43

Daeth y cyfarfod i ben am 18.46

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 20 Ionawr 2016**